

**CONSUMER  
PANEL**

**Ofcom**  
OFFICE OF COMMUNICATIONS

# **Pobl hŷn a thechnoleg cyfathrebiadau**

**Astudiaeth agweddol i bobl hŷn a'u hymgysylltiad â thechnoleg  
cyfathrebiadau**

**Gorffennaf 2006**

# Cynnwys

Adran		Tudalen
	Rhagair gan Banel Defnyddwyr Ofcom	1
1	Crynodeb Gweithredol	2
2	Agweddau at dechnoleg yn gyffredinol	5
3	Y Rhyngrwyd	7
	Defnyddwyr y Rhyngrwyd - yr 'Amsugnwyr'	8
	Defnyddwyr y Rhyngrwyd - yr 'Hunan-ddechreuwr'	8
	Y rheiny heb fod yn defnyddio'r Rhyngrwyd - Rhwystrau	10
	Medrau a gallu	10
	Anghenion gwybodaeth/cymhellant	11
	Materion cymdeithasol ac amgylcheddol	12
	Y 'Rhai Heb Gyswllt'	13
	Y 'Gwrthodwyr'	13
4	Teledu digidol	14
Atodiad	Methodoleg	15

Gellir gweld yr adroddiad hwn ar dudalen cyhoeddiadau gwefan y Panel Defnyddwyr ([www.ofcomconsumerpanel.org.uk](http://www.ofcomconsumerpanel.org.uk)). Mae'r Rhagair a'r Crynodeb Gweithredol ar gael yn Gymraeg ar y wefan hefyd.

Gellir ei ddarparu mewn ffurfiau eraill ar gais.

# Rhagair gan Banel Defnyddwyr Ofcom

Pam mae gymaint o ddefnyddwyr hŷn i weld yn amharod i ddefnyddio'r rhyngwrwyd a thechnolegau cyfathrebiadau newydd eraill? Beth ellir ei wneud i annog pobl hŷn i oresgyn y rhwystrau go iawn neu'r rhwystrau canfyddedig sy'n eu hatal?

Mae arolwg y Panel, *Defnyddwyr a'r farchnad gyfathrebiadau: 2006*<sup>1</sup>, yn datgelu bod oed yn parhau'n un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar ba un a yw pobl yn ymgysylltu â'r marchnadoedd telegyfathrebiadau. Mae'n amlgu'r lefelau uwch o bobl hŷn sy'n dweud nad ydynt eisiau llawer o wasanaethau cyfathrebiadau, neu nad oes arnynt eu hangen. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y niferoedd sydd â'r rhyngwrwyd, lle mae 56% o bobl 65+ oed wedi eithrio'u hunain yn wirfoddol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae'r arolwg yn datgelu hefyd bod perchenogaeth teledu digidol ar gyfer pobl 65 oed a hŷn 20% islaw cyfartaledd y DU. At ei gilydd, mae ymgysylltiad pobl â thechnoleg yn dechrau dirywio'n sylweddol ar ôl 55 oed.

Rydym yn pryderu ynghylch y canfyddiadau hyn, ac felly comisiynwyd yr ymchwiliad 'agweddol' hon gennym, yn canolbwyntio ar deledu digidol a'r rhyngwrwyd. Hwn yw ein cam cyntaf tuag at ddeall beth yw'r *galluogwyr* i bobl hŷn sy'n ymgysylltu â thechnolegau cyfathrebiadau a beth yw'r *rhwystrau* i'r rheiny nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae'r ymchwiliad yn archwilio'r cynigiad nad oes un ateb unigol i bâm mae rhai pobl wedi cysylltu â'r rhyngwrwyd a pham nad yw rhai eraill. Ond un canfyddiad pwysig yw mai agwedd a chymeriad yw'r prif benderfynyddion a yw pobl wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwyd - yn hytrach nag iechyd, oed neu incwm. Mae dylanwad y penderfynyddion eraill hyn, fel cost, ar lefelau cysylltedd yn teilyngu sylw pellach fodd bynnag.

Awgryma'r ymchwiliad y gallai'r grŵp o bobl sydd 'heb ymgysylltu yn ddigidol', o gael cefnogaeth a chymorth priodol, gael y cyfle i oresgyn eu pryderon a'u gofidiau ac elwa ar ddefnyddio cyfrifiaduwr / y rhyngwrwyd. Mae enghreifftiau o gefnogaeth a fyddai i weld i'w croesawu'n arbennig ar gyfer y grŵp hwn yn cynnwys cyrsiau wedi'u cynllunio ac yn cael eu cynnal gan bobl hŷn, a chynllun mentora.

Mae gan y Panel Defnyddwyr ddiddordeb hefyd yn y grŵp sydd wedi 'ymgysylltu'n ddigidol' yn llwyr – yr 'amsugnwyr'. Maent wedi cysylltu'n bennaf o ganlyniad i'w profiad yn y gweithle ac rydym eisiau deall beth sy'n digwydd i'r grŵp hwn dros amser. A fydd pobl yn aros yn ymgysylltiedig ac yn parhau'n naturiol i amsugno technolegau newydd, neu, a fydd nifer o bobl yn dechrau datgysylltu o ddatblygiadau newydd yn y farchnad telegyfathrebiadau wrth i amser fynd rhagddo? Mae'n bwysig deall y cynigiad hwn er mwyn pennu a fydd y rhaniad digidol presennol yn cau'n naturiol fel y mae nifer o bobl yn honni, neu a fydd yn parhau. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i archwilio beth allai ddigwydd a beth ellid ei wneud yn ei gylch.

Mae'r Panel yn cymryd cysylltedd pobl hŷn o ddifrif, oherwydd nid yn unig y mae byd cyfathrebiadau heddiw yn datblygu'n gyflym iawn, ond mae'n gynyddol bwysig i alluogi pobl i uniaethu â'i gilydd a'r byd yn gyffredinol. Mae'r hyn a oedd unwaith yn sectorau ar wahân bellach yn cydgyfeirio. Gyda mwy a mwy o fusnesau a gwasanaethau'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn mynd ar-lein, bydd y rheiny nad ydynt wedi'u cysylltu yn cael eu hunain yn cael eu heithrio'n gynyddol. Dros y flwyddyn sy'n dod bydd y Panel yn gweithio gyda llunwyr polisi a'r diwydiant cyfathrebiadau i ddeall y materion hyn a'r modd i fynd i'r afael â hwy, gan ddechrau gyda chynnal gweithdy ar y testun hwn yn gynnar ym mis Gorffennaf 2006.

<sup>1</sup> [http://www.ofcomconsumerpanel.org.uk/publications/consumer\\_panel\\_report06.pdf](http://www.ofcomconsumerpanel.org.uk/publications/consumer_panel_report06.pdf)

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

### Methodoleg

- 1.1 Ar sail canlyniadau o *Defnyddwyr a'r farchnad gyfathrebiadau: 2006*, datblygwyd segmentiad cychwynnol er mwyn cynnal yr ymchwil ansoddol hon. Cafodd y grŵp oed targed (55+) ei rannu i'r 3 segment canlynol:
- **'Heb ymgysylltu'n ddigidol'** – Gall fod ffôn symudol a theledu digidol ganddynt, ond dim mynediad i'r rhyngwyd nac yn 'ymwneud' â thechnoleg
  - **'Mabwysiadwyr hwyr'** – Gall fod ffôn symudol a theledu digidol ganddynt, a mynediad i'r rhyngwyd (deialu), agwedd 'ganolig' at dechnoleg
  - **'Croesawyr'** – Mae ffôn symudol ganddynt, gall fod ganddynt deledu digidol, mae rhyngwyd band eang ganddynt, 'diddordeb mawr' mewn technoleg

### Roedd teledu digidol a'r rhyngwyd yn cael eu gweld fel pethau gwahanol iawn

- 1.2 Roedd teledu digidol ymhlith y grŵp oed hŷn hwn yn cael ei weld yn gyffredinol fel endid prif ffrwd a hygyrch, lle'r oedd y rhyngwyd yn pegynnu llawer mwy. Nid oedd unrhyw gydberthynas i'w gweld rhwng perchenogaeth y rhyngwyd a pherchenogaeth teledu digidol.

### Roedd eithrio gwirfoddol rhag teledu digidol yn ganlyniad diffyg angen canfyddedig yn hytrach na rhesymau technegol neu economaidd

- 1.3 Roedd ymwybyddiaeth o deledu digidol yn gyffredin, ac roedd teledu digidol yn cael ei ddefnyddio gan ryw dri chwarter y sampl. Roedd buddion canfyddedig mwy o sianelau ac ansawdd llun gwell yn dra hysbys, ond nid oeddent yn cael eu gweld fel rhywbeth cymhellol i'r chwarter o'r sampl a ddewisodd eithrio'u hunain rhag teledu digidol. Roedd y rhan hon o'r sampl i weld yn ddigon hapus â'u sefyllfa bresennol.

### Roedd y newid i ddigidol yn peri pryder i lawer o ddefnyddwyr teledu digidol a'r rheiny nad oeddent yn ddefnyddwyr

- 1.4 Roedd y mwyafrif yn ymwybodol o'r newid i ddigidol, ond nid oedd yr amseru a'r goblygiadau i'r grŵp oed hwn yn glir. Byddai cyfathrebu parhaus ar y mater hwn i weld yn bwysig i'r gynulleidfa hon, yn enwedig i ddefnyddwyr heb fod yn ddefnyddwyr teledu digidol mewn perthynas â'r camau y mae angen iddynt eu cymryd a'r costau potensial sydd ynghlwm.

## **Roedd agweddau at fynediad i'r rhyngrwyd yn fwy cymhleth ac amrywiol nag a ragwelwyd, ac roedd angen adolygu ein segmentiad cychwynnol o bobl hŷn**

- 1.5 Roedd cymhellion ac agweddau at y rhyngrwyd yn gwahaniaethu'n ehangach nag a ragdybiwyd yn ein segmentiad cychwynnol, ac mae'r canfyddiadau'n dangos y byddai'r grŵp oed hŷn hwn yn cael ei gynrychioli'n fwy cywir gan 4 segment, dau fath o ddefnyddwyr presennol a dau fath o'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr:
- Defnyddwyr presennol: **'Amsugnwyr'** a **'Hunan-ddechreuwr'**
  - Y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr: **'Gwrthodwyr'** a'r **'Rhai heb gyswllt'**

## **Roedd yr 'Amsugnwyr' wedi gorfod dysgu am gyfrifiaduron yn y gwaith ac roeddent bellach yn rhan o'r oes ddigidol**

- 1.6 Un o'r prif benderfynyddion defnyddio'r rhyngrwyd yn y cartref oedd profiad blaenorol yn y gwaith. Roedd pob un o'r rheiny a oedd wedi dysgu yn y gwaith yn ddefnyddwyr yn y cartref erbyn hyn. Yn bobl resymol ac ymarferol o ran eu hagweddau at dechnoleg, amsugnwyd cynhyrchion a gwasanaethau technoleg yn hawdd ganddynt i'w bywydau. Yn ei hanfod, roedd y segment hwn bellach yn rhan o'r genhedlaeth technoleg ac mae wedi'i gynnwys yn ddigidol.

## **Roedd yr 'Hunan-ddechreuwr' nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant yn y gwaith ac a oedd wedi dysgu'u hunain yn amrywiol iawn o ran oed, gradd economaidd-gymdeithasol ac iechyd**

- 1.7 Roedd digon o gymhelliant gan y segment hwn i addysgu'u hunain, ac roedd lefelau gallu'n amrywio cryn dipyn yn y grŵp hwn. Roedd y rhesymau dros ddechrau yn amrywio o'r penodol – angen i gysylltu â'r teulu – i'r mwy cyffredinol – dymuniad i gadw cysylltiad a chadw'n gyfoes.
- 1.8 Roedd amrywiaeth y segment hwn yn dangos nad oedd ffactorau fel oed, incwm, lleoliad ac iechyd yn ymddangos yn rhwystrau i ddefnyddio. Agwedd a chymeriad, yn fwy nag unrhyw ffactor arall, oedd y prif benderfynyddion defnyddio.
- 1.9 Golygodd profiadau dysgu diweddar a pharhaus bod y segment hwn wedi rhoi mewnwelediad cyfoethog i'r anawsterau a wynebir gan bobl hŷn wrth ddysgu medrau cyfrifiadur / y rhyngrwyd.

## **Un o'r prif ganfyddiadau o'r ymchwil hon oedd nad oedd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn 'wrthodwyr' y rhyngrwyd i gyd, fel yr awgrymodd arolygon blaenorol. Yn hytrach, gwelwyd bod gan fwyafrif y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn y sampl ddiddordeb mewn defnyddio'r rhyngrwyd o gael y set iawn o amgylchiadau**

- 1.10 Roedd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn gyson i raddau helaeth o ran y rhesymau a roesant am beidio defnyddio – diffyg medrau, gallu a chymhelliant; soniwyd am nifer o resymau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd fel rhwystrau potensial i ymgysylltu. Yn fyr, roedd llawer yn syml iawn yn ofnus – yn ofnus o'r anhysbys, o'u gallu, o dorri'r cyfrifiadur, o ymddangos yn ffôl, ac ati.

- 1.10 Er bod yr holl rai yma heb fod yn ddefnyddwyr i weld ar y cychwyn eu bod yn eithrio'u hunain yn wirfoddol rhag defnyddio'r rhyngrwyd, roedd yn glir mai lleiafrif yn unig oedd yn gwrthod yn llwyr ('**Gwrthodwyr**'), ac roedd y mwyafrif, ar ôl rhywfaint o drafod, yn dangos diddordeb annisgwyl mewn cychwyn ('**Rhai heb Gyswllt**').

### Roedd y 'Gwrthodwyr' yn annhebygol o ymateb i ymdrechion i'w cael i ymgysylltu

- 1.11 Roedd hwn yn grŵp amrywiol – o neiniau prysur i hobïwyr bodlon – ac roedd eu rhesymau am barhau i beidio ag ymgysylltu yr un mor amrywiol. At ei gilydd, roeddent yn hapus i eithrio'u hunain yn wirfoddol ac yn annhebygol o newid eu hagwedd.

### Y 'Rhai heb Gyswllt' oedd y prif ddarganfyddiad, ac awgryma tystiolaeth bod y segment hwn yn cynnwys mwyafrif y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn y grŵp oed 55+

- 1.12 Yn ddigon tebyg i'r 'gwrthodwyr' o ran amrywiaeth, roedd y gynulleidfa hon i'w gweld yn magu hyder wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi, ac awgrymodd llawer ohonynt erbyn diwedd y grwpiau y byddent yn hoffi rhoi cynnig ar y rhyngrwyd. Y prif fater oedd sut i ymgysylltu'r gynulleidfa hon. Roedd y grŵp hwn yn rhyw ddwy ran o dair o'r segmentiad cychwynnol.

### Casgliadau

- 1.14 Mae teledu digidol yn cael ei ystyried fel endid prif ffrwd a hygyrch gan y grŵp oed hwn, ac mae'r rheiny sydd heb y dechnoleg hon wedi dewis bod hebddi, yn hytrach nag am resymau technegol neu economaidd.
- 1.15 Roedd y rhesymau am beidio â defnyddio'r rhyngrwyd gryn dipyn yn fwy cymhleth ac amrywiol. Ar wahân i'r rheiny a chanddynt brofiad o gyfrifiaduron yn y gwaith, ymddengys mai agwedd a chymeriad oedd y prif benderfynyddion a fyddai'r grŵp oed hwn yn dod yn ddefnyddwyr ai peidio. Enghreifftiau da o hyn oedd yr 'Hunan-ddechreuwr' a oedd yn ddigon hunan-gymhellol i ddechrau dysgu am gyfrifiaduron heb unrhyw gyswllt blaenorol.
- 1.16 Yn nodedig, nid oedd rhesymau oed, economaidd ac iechyd yn rhwystrau sylweddol i ddefnyddio, ond yn hytrach roedd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn siarad am faterion yn ymwneud â chymhelliant a gallu, yn ogystal â rhesymau cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn bwysig, rhannodd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn ddau grŵp gwahanol. Gwrthododd un o'r grwpiau'r syniad yn llwyr. Mynegodd y grŵp arall bryderon, ond ar ôl rhywfaint o drafod dangoswyd diddordeb ganddynt i roi cynnig arni.
- 1.17 Awgryma'r dystiolaeth bod nifer sylweddol o'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn teimlo eu bod wedi'u 'datgysylltu' o'r byd modern ar hyn o bryd, ond o gael y gefnogaeth a'r cymorth priodol, byddent yn goresgyn eu pryderon a'u hofnau ac yn elwa ar ddefnyddio'r cyfrifiadur / y rhyngrwyd.

- 1.18 I ymgysylltu â'r gynulleidfa hon, mae'n rhaid i'r amgylchedd dysgu fod wedi'i deilwra'n benodol tuag at bobl hŷn – yn eu hanfod, cyrsiau (rhad ac am ddim os oes modd) yn cael eu cynnal gan bobl hŷn ar gyfer pobl hŷn, ac wedi'u cynllunio ar gyfer dechreuwyr go iawn. Hefyd, ystyriwyd bod y syniad o fentor, yn gweithio'n lleol a allai gynorthwyo wyneb yn wyneb neu o leiaf dros y ffôn, yn llawn mor bwysig.
- 1.19 Byddai'r grŵp 'Hunan-ddechreuwyr' yn ddelfrydol o addas i gynorthwyo gyda'r ymagwedd deilwra hon – mae eu profiadau dysgu wedi golygu bod ganddynt fewnwelediad unigryw i'r anawsterau a wynebir gan bobl hŷn wrth ddysgu medrau cyfrifiadur / y rhyngryd.

## Adran 2

# Agweddau at dechnoleg yn gyffredinol

### Cymysgedd o frwdfrydedd a phryder gan bawb

- 2.1 Ar draws y sampl, roedd meddyliau cyntaf ymatebwyr am dechnoleg yn canolbwyntio ar faterion tebyg, ac yn cynnwys barnau cadarnhaol a negyddol.
- 2.2 Roedd yr elfennau cadarnhaol y soniwyd amdanynt fwyaf yn cynnwys:
- Datblygiadau mewn meddygaeth, cludiant a chyfathrebiadau
  - Mae mwy o wybodaeth wedi golygu mwy o ddewis
  - Posibiliadau niferus o gymharu â blynyddoedd blaenorol
  - Mae'r byd yn lle llai a mwy hygrych.
- 2.3 Roedd nifer o feysydd hefyd yr oedd llawer yn y grŵp oed hwn yn pryderu yn eu cylch, gan gynnwys:
- Cyflymder newid a'r pwysau i gadw i fyny
  - Nid oes dim yn para am byth rhagor, mae popeth yn cael ei daflu a'i ddisodli
  - Mae effeithlonrwydd bondigrybwyll wedi golygu cymhlethdod yn hytrach na symlrydd
  - Dibyniaeth fythol gynyddol ar dechnoleg - gormod efallai
  - Angen mabwysiadu technolegau newydd neu gael eich myleiddio.

*“Gymaint o bosibiliadau o gymharu â 10 mlynedd yn ôl hyd yn oed”.*  
*(Watford, 63)*

*“Mae'n rhyfeddol beth allwch wneud â'r cyfrifiadur heddiw, trefnu gwyliau ac archebu pethau heb symud o'r fan”.* (Southampton, 57)

*“Mae popeth yn cael ei brynu â cherdyn heddiw, gwelais rywun yn yr archfarchnad yn prynu afal gyda cherdyn, do wir!”* (Caerdydd, 62)

*“Ni all blant wneud unrhyw beth drostynt eu hunain heddiw heb dechnoleg; yn sicr, nid ydynt yn gallu adio”.* (Belfast, 65)

*“Does dim yn gweithio nawr os yw'r cyflenwad pŵer yn torri”.* (Watford, 67)

*“Ni allwch drwsio eich car mwyach; mae'n rhaid ei gysylltu â chyfrifiadur”.*  
*(Watford, 65)*

Ond roedd ymatebion gwahanol iawn ar draws y sampl o ran eu teimladau at dechnoleg



- 2.4 Roedd ymatebion defnyddwyr y rhyngrwyd yn amrywio o'r rhesymol a'r ymarferol i gyffro a rhyfeddod, gan ddibynnu ar eu profiad.
- 2.5 I'r rhai mwyaf profiadol, roedd technoleg yn amlwg yn rhan annatod a derbyniol o'u bywydau, ac nid oedd fawr o le i emosiwn.

*“Mae'n rhan o fy mywyd i nawr, i'r graddau mai prin y gallaf gofio beth oeddem ni'n ei wneud cyn iddo fod yno”. (Caeredin, 58)*

- 2.6 Roedd y llai profiadol yn awyddus i arddangos eu gwybodaeth drwy restru cynnyrch gwahanol, ond gan ddefnyddio geiriau fel “rhyfeddol” ac “anghredadwy” hefyd, yn dangos perthynas â thechnoleg a oedd i weld yn un newydd a llawn cyffro.

*“Hollol syfrdanol, mae'n rhyfeddol beth allwn ni wneud nawr”. (Manceinion, 66)*

*“Rwy'n siarad â'm hwyrion yn Awstralia ac yn eu gwyllo ar y sgrin, mae'n wirioneddol anhygoel”. (Manceinion, 67)*

- 2.7 Roedd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd eisiau arddangos eu gwybodaeth am gynnyrch gwahanol hefyd, er eu bod wedi drysu ychydig, ond roedd sylwadau fel “ofn”, “cymhleth”, “byd arall”, “ddim i mi” yn arwydd o'u perthynas lai esmwyth â thechnoleg.

*“Does gen i ddim syniad, mae'n gwneud i mi deimlo mor dwp”. (Southampton, 64)*

*“Does neb yn siarad â'i gilydd rhagor, ac mae'r plant i gyd yn dew gan nad ydynt yn mynd allan i chwarae”. (Belfast, 67)*

*“Dw i ddim yn mentro ei gyffwrdd, dwi'n siŵr o'i dorri”. (Southampton, 58)*

### **At ei gilydd, roedd teledu digidol a'r rhyngrwyd yn cael eu gweld fel pethau gwahanol iawn**

- 2.8 Roedd yn amlwg bod sylwadau cyffredinol ymatebwyr am dechnoleg yn tueddu canolbwyntio ar gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, yn hytrach na theledu digidol neu agweddau eraill ar dechnoleg.
- 2.9 Roedd agweddau at gyfrifiaduron / y rhyngrwyd yn wahanol iawn i deledu digidol. Roedd teledu digidol yn cael ei ystyried fel endid hygyrch a phrif ffrwd, hyd yn oed gan y rheiny nad oeddent yn ystyried eu hunain fel pobl dechnegol, lle'r oedd agweddau at gyfrifiaduron / y rhyngrwyd wedi'u pegynu lawer mwy.

*“Rwy'n gweld teledu digidol fel estyniad o'r hyn sydd gennym yn barod, ond mae cyfrifiadur yn rhywbeth hollol wahanol. Does gen i ddim syniad ble i ddechrau”. (Caerdydd, 62)*

## Adran 3

# Y rhyngrwyd

### Roedd agweddau at y rhyngrwyd ymhlith defnyddwyr presennol y rhyngrwyd yn gwahaniaethu rywfaint o'r segmentiad cychwynnol

- 3.1 Roedd llawer o ffactorau gwahanol a oedd yn dylanwadu ar ddefnyddio'r rhyngrwyd yn y cartref, ond ymddengys mai profiad o gyfrifiadur / y rhyngrwyd yn y gwaith oedd yr un prif benderfynedd defnyddio cyfrifiadur / y rhyngrwyd yn y cartref ymhlith y grŵp oed hwn.
- 3.2 Gydag un eithriad yn unig, roedd pob un o'r rheiny a oedd wedi defnyddio cyfrifiadur / y rhyngrwyd i weithio yn ddefnyddwyr band eang yn y cartref, pa un a oeddent yn dal i weithio'n amser llawn, yn rhan-amser neu wedi ymddeol. Roedd y defnyddwyr hyn mor esmwyth yn defnyddio cyfrifiaduron / mynediad rhyngrwyd bod y term gwreiddiol '**Croesawyr**' yn ymhlygu cysylltiad rhy weithgar - byddai '**Amsugwyr**' yn fwy priodol.
- 3.3 Nid oedd gan weddill y sampl unrhyw brofiad o gyfrifiadur / y rhyngrwyd yn y gwaith, er bod rhai yn gyfarwydd â phrosesu geiriau. Roedd y rhain yn rhannu yn ddefnyddwyr cyfrifiadur / y rhyngrwyd yn y cartref a'r rheiny heb fod yn eu defnyddio.
- 3.4 Yn y segmentiad cychwynnol, cafodd y defnyddwyr hyn eu galw'n '**Fabwysiadwyr Hwyr**', h.y. defnyddwyr petrusgar gyda mynediad deialu a ddaeth i ddefnyddio technoleg yn hwyr yn eu bywydau. Nid yw'r term '**Mabwysiadwyr Hwyr**' fodd bynnag yn cydnabod y brwdfrydedd a'r ymroddiad sy'n cael eu dangos gan y grŵp hwn i ddysgu medrau cyfrifiadur – byddai '**Hunan-ddechreuwr**' yn ddisgrifydd mwy priodol.

### Fodd bynnag, ymhlith y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd, roedd agweddau'n amrywio gryn dipyn o'r segmentiad gwreiddiol. Nid oedd pob un o'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn 'wrthodwyr' gwirfoddol i gyd fel y rhagdybiwyd yn wreiddiol; yn lle hynny, roedd rhan fwyaf y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr eisiau ymgysylltu â thechnoleg o gael y set iawn o amgylchiadau

- 3.5 Cafodd y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr eu clystyru'n wreiddiol o dan y term '**Heb Ymgysylltu'n Ddigidol**' - h.y. defnyddwyr teledu digidol posibl, ond gydag ychydig iawn o ddiddordeb mewn technoleg yn gyffredinol. Roedd y segment hwn i fod i gynrychioli'r niferoedd mawr o bobl hŷn sy'n 'eithrio'u hunain yn wirfoddol' rhag defnyddio'r rhyngrwyd (58% o bobl 65+ oed, *Defnyddwyr a'r farchnad gyfathrebiadau: 2006*).
- 3.6 Mae'r canfyddiadau'n dangos, er bod y segment '**Heb Ymgysylltu'n Ddigidol**' yn amrywiol o ran eu hagweddau a rhwystrau rhag defnyddio'r rhyngrwyd, roedd y rhain heb fod yn ddefnyddwyr yn rhannu yn ddau grŵp gwahanol:
  - '**Gwrthodwyr**' – y lleiafrif a oedd yn gwrthod y cyfrifiadur / y rhyngrwyd yn llwyr
  - '**Y Rhai Heb Gyswllt**' – y mwyafrif sydd i weld yn eithrio'u hunain yn wirfoddol ac yn teimlo eu bod wedi'u 'datgysylltu' o dechnoleg, ond, o gael yr amgylchedd iawn, byddai ganddynt ddiddordeb i gael mwy o wybodaeth.

## **Ymhlith defnyddwyr presennol, roedd profiad yr ‘Amsugnwyr’ o gyfrifiaduron / y rhyngrwyd yn golygu bod eu hagweddau at dechnoleg yn gyffredinol gryn dipyn yn wahanol i’r ‘Hunan-ddechreuwyr’**

### **Defnyddwyr y Rhyngrwyd - yr ‘Amsugnwyr’**

- 3.7 Roedd agweddau o’r segment hwn yn gyson iawn ar draws y lleoliadau gwahanol.
- 3.8 Er bod y rhan fwyaf wedi defnyddio cyfrifiaduron yn y gwaith am dros 10 mlynedd, gallai llawer ohonynt gofio’r anhawster o newid o bapur i gyfrifiaduron o hyd.

*“Roeddwn yn dda iawn yn gwneud lluniadau â llaw, ac nid oeddwn yn gweld bod angen defnyddio rhaglenni CAD. Roedd yn anodd tu hwnt i addasu, ond roedd rhaid i chi wneud neu ni fyddai gennych swydd”.*  
*(Caeredin, 59)*

*“Nid oedd yn dod yn naturiol, ond fel unrhyw beth arall, roedd ymarfer yn gwneud pethau’n haws”.* *(Manceinion, 61)*

- 3.9 Roedd ymdeimlad cryf hefyd bod y segment hwn yn ddiolchgar am y cyfle i ddysgu, ac, i’r rhai a oedd wedi ymddeol yn benodol, roedd mynediad i gyfrifiadur / y rhyngrwyd yn rhan bwysig o gadw’n effro a chadw cysylltiad erbyn hyn.

*“Wrth i mi ymddeol, y peth cyntaf a wnes i oedd sefydlu swyddfa yn fy nghartref; gwnaeth i mi deimlo’n well ynghylch peidio â mynd i’r gwaith”.*  
*(Caeredin, 63)*

- 3.10 I’r rheiny a oedd yn dal i weithio a’r rhai a oedd wedi ymddeol yn rhannol, roedd cyfrifiadur / mynediad i’r rhyngrwyd yn y cartref yn estyniad i’r swyddfa – ar gyfer storio, cyfathrebu ac ymchwil. I’r rheiny nad oedd yn gweithio bellach, roedd y cyfrifiadur yn erfyn defnyddiol i’r plant / wyrion i wneud eu gwaith cartref, ac ati.

### **Defnyddwyr y Rhyngrwyd – yr ‘Hunan-ddechreuwyr’**

- 3.11 Nid oedd unrhyw un yn y segment hwn wedi cael profiad o gyfrifiadur / y rhyngrwyd yn y gwaith, ac er bod rhai wedi defnyddio prosesydd geiriau, roedd pob un ohonynt, mewn gwirionedd, wedi dechrau o’r dechrau.
- 3.12 Roedd hwn yn grŵp amrywiol iawn o ran demograffeg ac amgylchedd cymdeithasol – o wŷr gweddwy yn byw ar eu pennau’u hunain heb unrhyw deulu estynedig, i neiniau a chanddynt lawer o deulu o’u cwmpas – ond roedd ganddynt un peth yn gyffredin, penderfyniad cryf i fynd i’r afael â’r rhyngrwyd.
- 3.13 Roedd cymhellion ar gyfer cychwyn yn amrywio o’r penodol – roedd mab wedi mynd dramor a’r e-bost oedd y ffordd orau o gyfathrebu ag ef – i rywbeth mwy cyffredinol fel eisiau cadw i fyny a pheidio â chael eu gadael ar ôl.

*“Prynais gamera digidol ac roeddwn eisiau gallu gwneud yr holl bethau yr oeddwn wedi darllen amdanynt, felly prynais gyfrifiadur yn fuan wedyn”.*  
*(Manceinion, 69)*

***“Rwyf wrth fy modd yn teithio, a phan fyddwn yn cyfarfod rhywun, byddent yn rhoi eu cyfeiriad e-bost i mi, felly roedd rhaid i mi gychwyn arni os oeddwn i gadw cysylltiad”.***  
***(Manceinion, 72)***

***“Ro’n i’n meddwl ei bod yn bryd i mi roi cynnig arni; ro’n i’n casáu’r teimlad bod y cyfan hwn yn mynd ymlaen o’m cwmpas, ac nad oeddwn yn gwybod dim amdano”.***  
***(Southampton, 72)***

- 3.14 Roedd teulu yn chwarae rôl gefnogol bwysig i lawer o’r hunan-ddechreuwyr hyn, a phlant yn aml oedd y rheswm dros gael y cyfrifiadur cyntaf.

***“Mae fy mab wedi cael ei gyfrifiadur ei hun yma erioed, a phan gafodd ei swydd yn Awstralia, rhoddodd ei hen gyfrifiadur i ni a threfnu e-bost a’r Rhyngryd i ni”.*** ***(Manceinion, 62)***

- 3.15 Ystyriwyd mai cychwyn arni oedd y rhan anoddaf, a bu’n gyfnod llawn pryder i lawer. Gofynnodd y rhan fwyaf am gymorth allanol naill ai trwy deulu neu trwy gwrs – a chafwyd profiadau cadarnhaol a negyddol. Roedd lleiafrif bach wedi dysgu’u hunain.

- Teimlwyd yn gyffredinol bod cyrsiau wedi’u targedu’n wael at yr henoed – yn aml roeddent yn cael eu cynnal gan bobl ifanc, ac yn rhagdybio rhywfaint o wybodaeth.

***“Roeddwn wedi drysu’n llwyr i gychwyn, doeddwn i ddim yn gwybod sut i ddefnyddio’r llygoden, ond es i yn ôl dro ar ôl tro, a dechreuodd wneud synnwyr”.***  
***(Caerdydd, 65)***

***“Roedd pawb lawer yn iau, nid oedd i weld fel dosbarth i ddechreuwyr i mi”.*** ***(Caeredin, 63)***

- Nid oedd teulu’n cael eu hystyried fel yr athrawon mwyaf amyneddgar ychwaith, ond o leiaf yr oeddent ar ben arall y ffôn pan aeth pethau o chwith.

***“Pan fydd pethau’n mynd o chwith, dyna pryd mae angen help arnoch i ail-gychwyn arni”.*** ***(Caerdydd, 62)***

- 3.16 Roedd medrau a gallu’n amrywio’n enfawr, ond nid oedd prinder brwdfrydedd, ac roedd gan lawer ymdeimlad cryf o gyflawniad.

***“Rydych yn teimlo’n falch iawn pan gewch e-bost gan ffrind, ei agor ac yna anfon ateb, ac mae’n gweithio – pan ddechreuais ni feddyliais erioed y byddwn yn cyrraedd y cam hwn”.*** ***(Watford, 59)***

***“Gan fy mod yn byw ar fy mhen fy un ac yn cael anhawster symud, mae mynd ar y rhyngryd wedi gwneud i mi deimlo’n rhan o bethau eto”.***  
***(Manceinion, 75)***

- 3.17 Mewn llawer o ffyrdd, roedd y gynulleidfa hon yn llysgenhadon delfrydol i annog eu cyfoedion i ymgysylltu - roeddent yn deall yr anawsterau wrth gychwyn arni, ac roeddent yn gallu ymhelaethu ar yr hyn a deimlent oedd manteision mynediad i’r rhyngryd.

3.18 Roedd profiadau diweddar yn golygu hefyd bod yr ‘Hunan-ddechreuwr’ hyn mewn lle da i gynghori ar sut i wella’r camau dysgu cyntaf. Soniwyd yn gyson am ddau argymhelliad:

- Cyrsiau (rhad ac am ddim os oes modd) yn cael eu cynnal gan bobl hŷn ar gyfer pobl hŷn, ac wedi’u cynllunio ar gyfer dechreuwr go iawn.

*“Mae mor bwysig cael rhywun sydd wedi bod drwy’r anawsterau eu hunain – dydyn ni ddim yn meddwl y ffordd iawn, ac mae’n cymryd llawer o ailadrodd i bethau aros yn y cof”. (Caeredin, 74)*

*“Dydyn ni ddim wedi cael ein magu gyda thechnoleg, ac felly mae’n wirioneddol anodd deall y cyfan - cofiwch fod eich ymennydd yn arafu wrth fynd yn hen!” (Belfast, 67)*

- Mynediad i gymorth gan fentor, wyneb yn wyneb os yw’n bosibl.

*“Dwi ddim yn sôn am y llinellau cymorth ofnadwy yna – byddai’n hyfryd gwybod bod rhywun ar gael i’w ffonio os oes problem, byddai’n rhoi hyder i chi roi cynnig ar bethau”. (Southampton, 59)*

**Roedd y rheiny heb fod yn defnyddio’r rhyngwrwd yn ddigon tebyg i raddau helaeth o ran eu hagweddau at gyfrifiadur / y rhyngwrwd, heblaw am un gwahaniaeth mawr**

3.19 Roedd ‘**Gwrthodwyr**’ wedi penderfynu peidio ag ymgysylltu, lle nad oedd y ‘Rhai Heb Ymgysylltu’ wedi gwrthod y syniad yn llwyr, ac yn hytrach yn dangos rhywfaint o ddiddordeb mewn mynd â phethau ymhellach, er gwaethaf eu pryderon.

3.20 Roedd y rhwystrau rhag defnyddio’r rhyngwrwd y soniwyd amlaf amdanynt ymhlith y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr, yn ymwneud â’r meysydd canlynol:

- Medrau a gallu
- Cymhelliant / anghenion gwybodaeth
- Materion cymdeithasol / amgylcheddol.

**Y rheiny heb fod yn defnyddio’r rhyngwrwd - Rhwystrau**

**Medrau a gallu**

3.21 I fwyafrif helaeth y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr, roedd diffyg unrhyw gyswllt â chyfrifiaduron yn codi amheuan ynghylch eu gallu i ymdopi â dysgu’r dechnoleg newydd hon.

*“Addysgir y medrau i bobl ifanc o oed ifanc; ry’n ni wedi byw am amser maith heb orfod meddwl fel hyn, ac rwy’n gwybod bod sawl un ohonom yn ansicr ynghylch a allwn ymdopi ag ef”. (Belfast, 65)*

- 3.22 Yn eu hanfod, roedd cyfrifiaduron a'r holl elfennau a oedd yn mynd law yn llaw â hwy – sgrin, bysellfwrdd, llygoden, iaith – i weld yn gymhleth, yn frawychus hyd yn oed, i'r dechreuwyr hyn.

*“Ailgychwyn, pori – rwyf wedi clywed y geiriau hyn yn cael eu defnyddio ond nid ydynt yn golygu dim i mi”. (Watford, 63)*

*“Rwy'n arswydo rhag meddwl y byddaf yn ei dorri os cyffyrddaf â'r botwm anghywir”. (Southampton, 63)*

- 3.23 O gofio'r anhawster canfyddedig wrth ddysgu am gyfrifiaduron, fe wnaeth nifer holi a fyddai'r buddion yn gorbwysu'r ymdrech sydd ei hangen:

- I rai, yn syml iawn roedd yn haws peidio â wynebu'r broblem a honni eu bod yn rhy hen
- Cydnabu eraill, lleiafrif bach, y gallai'r broses ddysgu eu dangos i fyny a pheri embaras iddynt o flaen eu teulu.

### **Anghenion gwybodaeth/cymhelliant**

- 3.24 Roedd rhan fwyaf y rhain heb fod yn ddefnyddwyr wedi clywed am yr hyn y gellir defnyddio'r rhyngwryd ar ei gyfer, ond roedd llawer yn ei chael yn anodd rhagweld sut y byddent yn ei defnyddio.

*“Ni allaf feddwl, os oes angen i mi edrych ar rywbeth, byddwn yn mynd i'r llyfrgell neu'n gofyn i'm mab”. (Southampton, 72)*

*“Rwy'n hapus gyda'r hobiau sydd gen i, dwi ddim yn meddwl bod ei angen arnaf”. (Caerdydd, 62)*

- 3.25 Dywedodd llawer hefyd sut oeddent wedi goroesi hyd yma heb y rhyngwryd, ac roeddent yn holi a oedd hi wir yn angenrheidiol iddynt ddechrau dysgu nawr, yn enwedig gan fod y plant yn ei wneud drostynt.

*“Mae'r plant yn dda iawn gyda hyn, defnyddiwch nhw os ydych eisiau gwybod rhywbeth”. (Belfast, 67)*

- 3.26 Roedd nifer fach wedi bod ar gyrsiau drwy eu gwaith neu ar eu liwt eu hunain, ac roeddent wedi cael profiad a oedd wedi'u peri i beidio â dysgu ymhellach.

*“Es i i ddsbarth cyfrifiaduron i ddechreuwyr, a dywedodd yr athrawes ei bod yn ddrwg ganddi, ond roedd yn teimlo 'mod i'n rhy hen”. (Manceinion, 62)*

*“Dywedodd yr athrawes wrthyf am aros y tu allan ar gychwyn y wers, ac anghofiodd amdanaf; dyna'r tro olaf y byddaf yn mynd ar unrhyw gwrs gwirion”. (Southampton, 68)*

- 3.27 Roedd ymwybyddiaeth eang bod llyfrgelloedd yn cynnig mynediad rhad ac am ddim i'r rhyngwryd, ond ychydig iawn oedd wedi rhoi cynnig arni rhag ofn iddynt ddangos eu hanwybodaeth neu greu embaras iddynt eu hunain.

## Materion cymdeithasol ac amgylcheddol

- 3.28 Roedd cyflymder newid mewn technoleg a'r pwysau canfyddedig i uwchraddio'n aml yn codi pryderon ynghylch ansawdd y cynnyrch a'r gost ariannol botensial.

*“Ry'n ni'n arfer â phethau sy'n para, rwyf am brynu rhywbeth sy'n para'n hwy na dwy flynedd neu beth bynnag, fel arall mae i weld yn wastraff arian”. (Southampton, 73)*

- 3.29 Roedd diffyg amser yn rhwystr hefyd i nifer o neiniau a oedd yn gofalu am yr wyrion tra bod eu rhieni yn gweithio, ac roedd rhai yn ansicr ynghylch a fyddai'r peiriant yn ffitio yn y tŷ.

*“Mae pensiynwyr yn byw mewn fflatiau bach ac nid oes llawer o le ganddynt”. (Manceinion, 67)*

- 3.30 Roedd nifer o'r rhai newydd ymddeol yn awyddus i gynnal eu hannibyniaeth a'u symudedd, ac roeddent yn teimlo y gallai cyfrifiaduron fygwth y ddau.

*“Ry'ch chi'n eistedd i lawr o flaen cyfrifiadur o hyd, a byddwn yn ddibynol ar eraill am gymorth drwy'r amser”. (Llundain, 58)*

- 3.31 I'r gwrthwyneb, teimlai lleiafrif o'r rheiny a oedd yn anabl / yn gaeth i'r tŷ y gallai dysgu am dechnoleg darfu ar eu perthynas ddibynol â'u plant / wyrion.

- 3.32 Soniwyd hefyd am storïau yn y wasg am faterion diogelwch a phreifatwydd.

*“Rydych chi'n clywed o hyd am bobl yn cael eu twyllo, nid yw'n swnio'n ddiogel iawn i mi”. (Belfast, 56)*

*“Mae'n debyg y gall pobl edrych ar yr hyn ry'ch chi'n ei wneud ar eich cyfrifiadur pan fyddwch wedi cysylltu â'r rhyngwyd; ni fyddwn i eisiau i hynny ddigwydd”. (Caerdydd, 62)*

- 3.33 Yng Ngogledd Iwerddon, yn benodol, roedd teimlad cryf ymhlith y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr mai'r rhyngwyd oedd yn gyfrifol am y diffyg rhyngweithio cymdeithasol cynyddol yn y gymuned. Teimlai rhai bod y rhyngwyd yn gaethiwus.

*“Nid oes unrhyw blant yn mynd allan i chwarae mwyach”. (Belfast, 59)*

*“Rwyf wedi clywed ei fod yn gaethiwus - mae un o'r hen wragedd ar yr ystâd ar y rhyngwyd byth a hefyd”. (Belfast, 62)*

Er gwaetha'r holl pryderon hyn, dangosodd y 'Rhai heb Gyswllt' rywfaint o ddiddordeb i roi cynnig arni yn wahanol i'r 'Gwrthodwyr'

## Y 'Rhai heb Gyswllt'

- 3.34 Mwyafrif y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr – rhyw ddwy ran o dair – oedd y 'rhai heb gyswllt'.
- 3.34 Roeddent i'w gweld yn magu hyder wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi.

*“Ni feddyliais erioed y byddai gennyf ddiddordeb, ond ar ôl yr holl siarad yma, hoffwn roi cynnig arni”. (Caeredin, 67)*

*“Mae nifer o bethau yr hoffwn gael gwybodaeth amdanynt – hanes fy nheulu er enghraifft”. (Southampton, 68)*

- 3.36 Erbyn diwedd y drafodaeth, roedd diddordeb eang i roi cynnig ar bethau – ond ar gwrs a oedd yn addas ar eu cyfer yn unig.

*“Dim ond cyrsiau wedi’u teilwra ar gyfer ni’r hen wragedd y byddai gennyf ddiddordeb ynddynt, fel arall ni fyddwn yn teimlo’n esmwyth”. (Caeredin, 74)*

## Y 'Gwrthodwyr'

- 3.37 At ei gilydd, lleiafrif y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr oedd y 'gwrthodwyr' – rhyw draean.
- 3.38 Yn gyffredinol, roeddent yn un o'r pedwar math canlynol:
- 'Prysurdeb Teulu' – roedd plant ac wyrion wedi cymryd drosodd, nid oedd digon o oriau mewn dydd
  - 'Hobïwyr Brwd' – rhy brysur gyda'u gweithgareddau presennol, paentio / garddio / darllen, ac ati
  - 'Bodlon' – yn hapus gyda'u bywydau presennol, ddim yn gweld unrhyw angen i wynebu heriau newydd
  - 'Tadol / Mamol' – gwell peidio â rhoi cynnig arni o gwbl na risgio edrych yn wirion o flaen y teulu.

## At ei gilydd, nid oedd oed, statws economaidd ac iechyd yn ffactorau pwysig yn y penderfyniad i ddefnyddio'r rhyngrwyd

- 3.39 Er bod oed yn anochel wedi cael rhyw ddylanwad ar ddefnyddio'r rhyngrwyd, roedd yn amlwg bod agwedd a chymeriad yn benderfynyddion mwy – roedd un hen nain 82 mlwydd oed yn awyddus i gychwyn arni.
- 3.40 Yn ddigon tebyg, roedd y niferoedd a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn amrywio gryn dipyn ymhlith y rheiny ag anabledau neu a oedd ag iechyd gwael.
- 3.41 Yn nodedig, anaml y soniwyd am ffactorau costau / economaidd fel rhwystr – ymddengys y byddai hyd yn oed y rheiny ar yr incwm isaf yn dod o hyd i'r arian pe bai ganddynt ddiddordeb. Dylid nodi na wnaethom gynnal ymchwil ymhlith teuluoedd incwm isel yn benodol.



## Adran 4

# Teledu Digidol

### Roedd perchenogaeth teledu digidol yn helaeth, ond cyfyngedig oedd dealltwriaeth o deledu digidol a'i fuddion

- 4.1 Roedd teledu digidol gan ryw dri chwarter y sampl, ond roedd sawl un o'r ymatebwyr, yn gyffredinol y rheiny ag ychydig o gyswllt â thechnoleg, yn ansicr ynghylch a oedd ganddynt deledu digidol ai peidio.

*“Rwy'n meddwl bod gen i digibox, ydy hynny'n meddwl ei fod gen i?”  
(Watford, 73)*

- 4.2 Ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd bod rhan fwyaf yr ymatebwyr yn ddefnyddwyr Freeview ac roeddent yn gymharol newydd i deledu digidol. Roedd Freeview yn cael ei weld fel opsiwn deniadol ar gyfer y sianelau ychwanegol a'r taliad unigol, ac roedd nifer ohonynt wedi'i gael yn anrheg.
- 4.2 Teimlai'r mwyafrif helaeth bod teledu digidol yn gam bach o'u sefyllfa flaenorol, ac yn gyffredinol ymhell o fewn eu gallu – wedi i'r set law rheoli gael ei hesbonio iddynt.

*“Ry'n ni'n cael mwy o sianelau, dyna i gyd, heblaw am orfod deall pa fotymau i'w gwasgu ar y set reoli”. (Caerdydd, 67)*

*“Rwy'n gwybod pa fotwm i'w wasgu nawr, ac nid wyf yn cyffwrdd ag unrhyw un o'r rhai eraill”.  
(Watford, 63)*

- 4.3 Nid oedd unrhyw un yn y sampl wedi arbrofi gyda'r botymau rhyngweithiol – roedd eu dealltwriaeth o fuddion teledu digidol yn gyfyngedig i sianelau ychwanegol ac, o bosib, llun cliriach.

### Roedd eithrio gwirfoddol rhag teledu digidol yn ganlyniad diffyg angen canfyddedig yn hytrach na rhesymau technegol neu economaidd

- 4.5 Ymddengys bod y rheiny sydd wedi eithrio'u hunain yn wirfoddol rhag teledu digidol wedi gwneud hynny am eu bod yn hapus gyda'u sefyllfa bresennol ac nad oeddent yn gweld unrhyw angen am sianelau ychwanegol.
- 4.6 Fodd bynnag, roedd lleiafrif y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr yn pryderu hefyd eu bod yn cael eu gorfodi i dderbyn technoleg newydd a all fod yn gostus iddynt.

*“Dwi ddim yn credu ei bod yn iawn fod rhaid i ni dalu i gael yr holl sianelau newydd hyn, rwy'n hapus gyda'r hyn sydd gen i”. (Manceinion, 59)*

### Roedd y newid i ddigidol yn peri pryder i lawer o ddefnyddwyr teledu digidol a'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr

- 4.7 Un mater allweddol i lawer yn y grŵp oed hwn oedd y newid i ddigidol. Roedd ymwybyddiaeth uchel o'r newid, ond nid oedd yr amseru a'r goblygiadau yn glir i nifer fawr o ddefnyddwyr (Freeview yn bennaf) a'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr.

*“Clywais ei fod yn digwydd rywbryd yn ystod y 5 mlynedd nesaf”. (Belfast, 63)*

*“A yw hynny'n meddwl y bydd rhaid i mi gael teledu newydd?”  
(Manceinion, 62)*

## Atodiad

# Methodoleg

### Amcanion

- 1.1 Darparu dadansoddiad manwl o broffiliau a nodweddion pobl hŷn, gan gymharu'r rheiny sydd wedi prynu gwasanaethau rhyngwrwd a theledu digidol â'r rheiny sydd heb wneud hynny.
- 1.2 Asesu'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau rhwng defnyddwyr a'r rheiny heb fod yn ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn o ran:
  - Agweddau at newid yn gyffredinol a thechnoleg yn benodol
  - Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wasanaethau'r rhyngwrwd a theledu digidol
  - Y prif ysgogwyr sy'n annog defnyddio / prif rwystrau sy'n annog peidio â defnyddio
  - Ffactorau allanol a'u heffaith ar wneud penderfyniadau (e.e. cyfnod bywyd, statws gweithio, cyfoeth, iechyd, symudedd, strwythur teulu, ac ati)
  - Buddion canfyddedig i'r defnyddiwr a'u potensial i annog a chymell y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr
- 1.3 Archwilio'r broses y mae prynwyr gwasanaethau'r rhyngwrwd a theledu digidol wedi bod drwyddi, a nodi unrhyw beth a ddysgwyd o'r profiadau hyn.
- 1.4 Rhoi argymhellion ar ffyrdd i annog ystyriaeth a defnydd o'r gwasanaethau hyn ymhlith y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr.

### Ymagwedd

- 1.5 8 x 1.5 awr o grwpiau ffocws mewn 6 lleoliad gwahanol ar draws y DU (Watford, Caerdydd, Belfast, Manceinion, Caeredin a Southampton).
- 1.6 Ar sail canlyniadau o *Defnyddwyr a'r farchnad gyfathrebiadau: 2006*, datblygwyd segmentiad cychwynol a rhannwyd y grŵp oed hwn i'r 3 segment canlynol. I sicrhau'r raddfa fwyaf o homogenedd o fewn y grwpiau, roedd y recriwtio'n seiliedig ar ddefnydd a chwotâu agweddol.
  - **'Heb ymgysylltu'n ddigidol'** (8 grŵp)
    - Gall fod ffôn symudol a theledu digidol ganddynt, ond dim mynediad i'r rhyngwrwd nac yn 'ymwneud' â thechnoleg
  - **'Mabwysiadwyr hwyr'** (5 grŵp)
    - Gall fod ffôn symudol a theledu digidol ganddynt, a mynediad i'r rhyngwrwd (deialu), agwedd 'ganolig' at dechnoleg

- ‘**Croesawyr**’ (5 grŵp)
  - Mae ffôn symudol ganddynt, gall fod ganddynt deledu digidol, mae rhynggrwyd band eang ganddynt, ‘diddordeb mawr’ mewn technoleg

1.7 Ychwanegwyd at y grwpiau gan 20 o gyfweiliadau manwl yn y cartref ymhlith defnyddwyr ag anableddau a/neu y rheiny nad ydynt yn gallu gadael y cartref i fynychu sesiynau grŵp.

### **Fformat/cynnwys y grwpiau ffocws**

1.8 Dilynodd y grwpiau ganllaw trafod cytunedig a oedd i fod yn ddistrwythur ac yn benagored. Y nod gyda’r grwpiau hyn oedd galluogi cyfranogwyr i fynegi’u meddyliau a’u teimladau yn eu geiriau eu hunain, ac i osgoi, cyn belled ag y bo modd, cwestiynau uniongyrchol a fyddai’n anochel yn rhoi ein geiriau a’n syniadau ein hunain iddynt.

1.9 Dilynwyd fformat gan y grwpiau, ac mae crynodeb ohono fel a ganlyn:

- Cyflwyniad / ymgynhesu gyda thrafodaeth am amgylchedd teulu / gwaith.
- Agweddau at dechnoleg yn gyffredinol
- Y rhynggrwyd – dealltwriaeth, defnydd, ymwybyddiaeth ac agweddau
- Teledu digidol – dealltwriaeth, defnydd, ymwybyddiaeth ac agweddau
- Datrys problemau mewn grŵp – ffyrdd i annog y rheiny heb fod yn ddefnyddwyr i oresgyn rhwystrau.